

Grant Dewisol y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud Canllawiau

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU SYMUD – DIBEN Y GRANT

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio'r Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud i gefnogi busnesau ac unig fasnachwyr sydd wedi cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau ychwanegol o roddwyd ar waith i reoli lledaeniad COVID-19 yn ystod Rhagfyr 2020 (o'r 4ydd ar gyfer lletygarwch a rhai sectorau eraill ac yn fwy eang o'r 19fed). Pwrpas y grant yw i gefnogi busnesau gyda cymorth llif arian i'w helpu i oroesi canlyniadau economaidd y cyfyngiadau a gyflwynwyd. Mae'r grant yn ceisio ategu mesurau ymateb COVID-19 eraill i gefnogi busnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol yng Nghymru.

Mae'r Grant Dewisol ar gael i bob busnes sydd wedi gorfod cau neu wedi ei effeithio yn sylweddol gan y cyfyngiadau.

Gall busnesau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y ddogfen hon ac sy'n gallu datgan gostyngiad o 40% neu fwy mewn trosiant o ganlyniad i'r cyfyngiadau fod yn gymwys.

Bydd y grant yn cau am 5pm ddydd Gwener 29 Ionawr neu pan fydd y gronfa wedi'i hymrwymo'n llawn.

BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi eu teilwra, gan gynnwys mynediad at offerynnau ar-lein, gweithdai, cynghorwyr arbenigol a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio gyda chi i lunio diagnostig busnes a chynllun gweithredu, gall ein cynghorwyr hefyd ddarparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a'ch helpu i gael mynediad at gymorth arall a allai fod o fudd i chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.busnescymru.llyw.cymru

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU SYMUD – PWY ALL WNEUD CAIS ?

Gall busnesau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol fod yn gymwys i gael y grant:

- Roedd y busnes yn masnachu cyn 1 Medi 2020
- Rhaid bod y busnes yn gweithredu yng Nghymru
- Rhaid i fusnesau fod ag o leiaf **un** o'r canlynol
 - Cyfeirnod Unigryw Trethdalwr (UTR) gan CThEM
 - Rhif Cofrestru TAW neu Dystysgrif Eithrio o TAW)
 - Rhif Cofrestru'r Cwmni (os yw'n berthnasol)
 - Rhif trwydded cerbyd hacni neu rif trwydded minicab preifat (os yw'n berthnasol)
- Mae'r busnes wedi cael ei orfodi i gau neu wedi gweld gostyngiad o >40% mewn trosiant **o ganlyniad uniongyrchol** i gyflwyno'r cyfyngiadau symud yng Nghymru
- Cwmni cyfyngedig gyda throsiant rhwng £10,000 a £50,000

- Unig fasnachwyr / partneriaethau gyda throshiant sy'n llai na £85,000
- Rhaid mai'r busnes yw eich prif ffynhonnell incwm (>50%)
- Rhaid i fusnesau sy'n derbyn cymorth geisio cadw eu cyflogeion am 12 mis
- Ni chaiff unrhyw fusnes wneud mwy nag un cais
- Dylai busnesau fod wedi bod yn masnachu'n weithredol hyd at 4 Rhagfyr, pan gyflwynwyd y cyfyngiadau newydd yng Nghymru, a hwyrach y bydd yn ofynnol iddynt ddarparu tystiolaeth i ddangos hyn
- **Nid** yw busnesau sy'n gymwys i dderbyn Grant Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud yn **gymwys** i dderbyn y grant dewisol hwn.
- Nid yw busnesau sy'n gymwys i gael Grant Cymorth Penodol i'r Sector y Gronfa Cadernid Economaidd yn gymwys ar gyfer y grant dewisol hwn.

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU SYMUD – FAINT ALLWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO?

Mae grant dewisol o £2,000 ar gael i gynorthwyo busnesau sydd:

- Wedi cael eu gorfodi i gau o ganlyniad i'r cyfyngiadau cenedlaethol a roddwyd ar waith.
- Bydd y grant hefyd yn cefnogi busnesau sy'n amcangyfrif gostyngiad o 40% yn eu trosiant yn ystod y cyfnod o fis Rhagfyr 2020 i Ionawr 2021 o'i gymharu â mis Rhagfyr 2019 i Ionawr 2020 (neu drosiant misol cyfartalog o fis Medi i fis Tachwedd 2020 os nad oeddent yn masnachu ym mis Rhagfyr 2019)

Mewn perthynas â llety hunanarlwyo, mae'r un canllawiau ag ar gyfer cynlluniau grant blaenorol sy'n gysylltiedig ag ardrethi annomestig yn berthnasol, sef na fydd eiddo'n gymwys i gael y grant oni bai bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- Gall y llety hunanarlwyo ddarparu dwy flynedd o gyfrifon masnachu am y cyfnod yn union cyn blwyddyn ariannol gyfredol y busnes
- Rhaid bod y llety hunanarlwyo wedi'i osod am gyfnod o 140 diwrnod neu fwy ym mlwyddyn ariannol 2019-20
- Rhaid i'r busnes llety hunanarlwyo fod yn brif ffynhonnell incwm i'r perchennog (isafswm trothwy yw 50%).

Ar gyfer eiddo hunanarlwyo, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn llawn i ofyn am gyfrifon busnes masnachu, rhestrau archebu a ffurflenni treth hunanasesu a gyflwynwyd i CThEM ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 os oes angen tystiolaeth ychwanegol i ddangos i'r meini prawf hyn gael eu bodloni.

Nid ydych yn gymwys i gael y grant hwn:

- Os ydych yn gymwys i dderbyn, neu wedi derbyn, Grant Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud gan eich Awdurdod Lleol
- Os ydych yn gymwys i gael Grant Cymorth Penodol i'r Sector y Gronfa Cadernid Economaidd, neu wedi gwneud cais amdano
- Os yw'r busnes yn cynhyrchu llai na 50% o'ch incwm. Rhaid mai'r busnes yw eich prif ffynhonnell incwm.

Mae angen i fusnesau ddangos y byddai hyfywedd y fenter o dan fygythiad heb y cymorth grant, ac amlinellu pam.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol, a'r Awdurdod Lleol fydd â'r disgrisiwn llwyr i dalu'r grant – yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn y canllawiau hyn.

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU SYMUD – SUT I WNEUD CAIS

Gall busnesau wneud cais am y grant drwy fynd i dudalen we Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud eu Hawdurdod Lleol. Os byddwch yn gymwys, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais ar-lein, cwblhau pob maes gofynnol a chyflwyno'ch cais. Noder bod pob maes yn orfodol – bydd methu â'u cwblhau yn arwain at wrthod eich cais.

Bydd ceisiadau'n derbyn sylw ar sail **y cyntaf i'r felin**. Gall hyn olygu na fydd rhai ceisiadau sydd wedi eu cyflwyno yn cael eu gwerthuso, os yw'r holl gronfa wedi cael ei defnyddio. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am hyn drwy e-bost.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddisgrisiwn llwyr i bennu hyd a thelerau'r gronfa.

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU SYMUD – CANLLAWIAU AR GWBLHAU'R FFURFLEN

Adran 1 – Eich Manylion Personol

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi, yr ymgeisydd / perchennog y busnes.

Adran 2 – Gwybodaeth am eich busnes

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am eich busnes. Gwnewch yn siŵr bod y manylion yn yr adran hon yn gywir ac yn gyflawn. **Ni** fydd ffurflenni sy'n cynnwys data anghyflawn neu anghywir yn cael eu prosesu.

Ni fydd busnesau'n gymwys i dderbyn y grant os yw un o'r categorïau canlynol yn berthnasol:

- Gorfodwyd i gau ar ôl torri rheolau cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, os oes gwelliannau wedi'u gwneud a bod y busnes wedi cael ei ailagor yna mae'n bosibl y gall fod yn gymwys i gael y grant (yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd)
- Busnesau a ddewisodd gau ond nad yw'n ofynnol iddynt wneud hynny
- Heb fod wedi'u diddymu neu yn y broses o gael eu dileu
- Wedi croesi'r terfyn Cymorth Gwladwriaethol
- Os nad y busnes hwn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran yw eich prif ffynhonnell incwm

Adran 3 – Effaith y cyfyngiadau symud ar eich busnes

Cadarnhewch neu fel arall os yw'r datganiad ar y ffurflen gais yn berthnasol i'ch busnes. Caiff yr awdurdod lleol ofyn am ragor o wybodaeth/dogfennaeth i ddangos tystiolaeth o'r gostyngiad hwn. Hefyd, dywedwch wrthym yn y rhan yma sut y bydd y cyfyngiadau diweddaraf a gyflwynwyd yn ystod mis Rhagfyr yn effeithio yn **uniongyrchol** ar eich busnes.

Adran 4 – Manylion Banc

Rhowch fanylion eich cyfrif banc busnes gan y bydd wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud y taliad grant i chi – gwnewch yn siŵr bod y manylion hyn yn gywir. Gallai'r awdurdod lleol ofyn am eich cyfriflenni banc diweddaraf a gwybodaeth bellach i ddangos tystiolaeth o'r gweithgarwch masnachu.

Adran 5 – Datganiad am Gymorth Gwladwriaethol a Dderbyniwyd

Rhaid i chi ddatgan a ydych wedi derbyn unrhyw Gymorth Gwladwriaethol yn ystod y tair blynedd ariannol flaenorol (h.y. y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol) ynghyd â'r swm a dderbyniwyd a manylion y corff dyfarnu.

Dylech gynnwys yr holl gymorth ariannol cysylltiedig â COVID-19 a dderbyniwyd gennych ers mis Mawrth 2020.

Gallai enghreifftiau gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd, y Grant Cychwyn Busnes, y Grant Ardrethi Annomestig (cylch 1)

Beth yw Cymorth De Minimis?

Er mwyn lleihau gwrthdroad cystadleuaeth i'r lefel isaf posibl, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn pennu terfyn ar faint o gymorth y ceir ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol. Dan reoliad 1407/2013 yr UE (rheoliad Cymorth De Minimis) fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd 24/12/2013 mae'r cymorth yn gymorth de minimis.

Mae terfyn o €200,000 (€100,000 ar gyfer gweithrediadau'r sector cludo nwyddau ar y ffordd) ar gyfer yr holl gymorth de minimis a ddarperir i un sefydliad dros gyfnod o dair blynedd ariannol (h.y. y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol). Bydd unrhyw gymorth de minimis a ddarperir i chi o dan y gwasanaeth hwn yn berthnasol. Rhowch wybod i ni am unrhyw gymorth de minimis arall a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol, gan y bydd angen i ni sicrhau na fydd ein cymorth ni, ar ôl ei ychwanegu at yr hyn a gafwyd eisoes, yn fwy na'r trothwy o €200,000 (€100,000 ar gyfer gweithrediadau'r sector cludo nwyddau ar y ffordd) dros y 3 blwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r cymorth yn cynnwys nid yn unig grant ond hefyd cymorth megis gwasanaethau cynghori am ddim neu â chymhorthdal, cyngor marchnata ac ati. Os oes gennych unrhyw amheuaeth o ran a yw'r cymorth a dderbyniwyd eisoes yn cyfrif fel cymorth de minimis dylech ei gynnwys.

Adran 6 – Datganiadau

Darllenwch y datganiadau a thiciwch y blychau i gadarnhau eich bod yn eu deall ac yn eu derbyn.

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen a deall y ddogfen ganllawiau hon.

**GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU SYMUD
BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?**

Cydnabyddir bod eich cais wedi cael ei dderbyn o fewn 10 diwrnod gwaith.

Gwneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau ar sail y wybodaeth a roddir yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a gwybodaeth o wiriadau a gynhelir ar ffynonellau data busnes arall. Os rhoddir data anghyflawn neu anghywir, neu os yw'r dystiolaeth a ddarperir yn annigonol, ni fyddwn yn prosesu'r ffurflen a gwrthodir y cais.

Ein nod yw prosesu ceisiadau grant terfynol o fewn 30 diwrnod gwaith i'w derbyn.

Bydd 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw.

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau dros wrthod eich cais. Nid oes proses apelio.

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU SYMUD – AD-DALU GRANT

Dylai ymgeiswyr nodi ei bod yn bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn i'r grant gael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os daw tystiolaeth i'r amlwg i ddangos nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys ar gyfer Grant Dewisol y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud.